Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

# Adroddiad Blynyddol y Gwasanaethau Parcio 2019 – 2020



# Adroddiad Blynyddol
# y
# Gwasanaethau Parcio
# 2019-2020


## Mynegai


| | | Rhif y Dudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3-4 |
| 2. | Nod ac Amcanion | 4 |
| 3. | Hanes a Gweithrediadau Cyfredol | 5 |
| 4. | Meysydd Parcio | 5-6 |
| 5. | Parcio Mwy Diogel | 7 |
| 6. | Arloesedd a Thechnoleg | 7 |
| 7. | Ystadegau | 8-9 |
| 8. | Apeliadau a Heriau | 9 |
| 9. | Canolfan Gorfodi Traffig | 10 |
| 10. | Incwm a Gwariant | 10 |
| 11. | Hyfforddiant | 11 |
| 12. | Cydnabyddiaethau | 11 |

1. Cyflwyniad

Mae Castell-nedd Port Talbot yn fwrdeistref sirol ac yn un o ardaloedd awdurdodau unedol Cymru. Castell-nedd Port Talbot yw'r 8fed sir fwyaf poblog yng Nghymru a'r drydedd fwrdeistref sirol fwyaf poblog.

Mae'r fwrdeistref sirol yn ffinio â phrif ardaloedd eraill Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf i'r dwyrain, Powys a Sir Gâr i'r gogledd ac Abertawe i'r gorllewin. Ei phrif drefn yw Castell-nedd, Port Talbot a Phontardawe.




Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot oedd y cyntaf i gyflwyno'r cynllun dad-droseddoli gorfodi parcio o dan Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 yng Nghymru. Daeth gorfodi Gorchmynion Rheoleiddio Traffig Ffyrdd gan yr awdurdod i rym ar 1 Mehefin 1999.

Ar 31 Mawrth 2008, disodlwyd Deddf Traffig Ffyrdd 1991 gan Ddeddf Rheoli Traffig 2004, a daeth yr holl awdurdodau sy'n gorfodi gorchmynion traffig ar hyn o bryd dan Ddeddf 1991 yn Ardaloedd Gorfodi Sifil yn awtomatig o dan y Ddeddf Traffig Ffyrdd newydd.

Daw gorfodi Gorchmynion Rheoleiddio Traffig ar ac oddi ar y stryd o dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004.

(Adran 78 Deddf Rheoli Traffig 2004 a Rheoliad 9 Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig (Darpariaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013).

Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Sylwadau ac Apelau (Cymru) 2008.

Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Parcio (Hysbysiadau o Dâl Cosb, Gorfodi a Dyfarnu) (Cymru) 2008.

Nodir gofyniad yn yr Arweiniad Statudol a ddarperir yn unol â Deddf Rheoli Traffig 2004 i awdurdodau lleol lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithgareddau gorfodi parcio.

Mae Castell-nedd Port Talbot yn ymrwymedig i ddarparu Gwasanaeth Parcio teg, cyson a thryloyw. Bydd cyhoeddi gwybodaeth ystadegol ac ariannol yn helpu i gyflawni hyn. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys gwybodaeth am lefel y gweithgarwch gorfodi parcio ar gyfer y cyfnod 2018/2019 yn ogystal â'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn ein 'cyfrif parcio'.

## 2 Nod ac Amcanion

Nod cyffredinol yr awdurdod yw darparu gwasanaeth parcio sy'n cefnogi preswylwyr, ymwelwyr a busnesau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Awn ati i gyflawni hyn drwy'r amcanion canlynol:

- Gwella diogelwch ffyrdd a mynediad at wasanaethau ar gyfer yr holl ddefnyddwyr ffyrdd, gan gynnwys cerddwyr
- Cefnogi'r economi leol drwy sicrhau trosiant cerbydau mewn cilfachau parcio arhosiad byr

## 3 Hanes a Gweithrediad Presennol

Ym 1999, tendrodd yr awdurdod ddau gontract, un ar gyfer gorfodi parcio ar ac oddi ar y stryd, a'r llall ar gyfer prosesu hysbysiadau. Enillwyd y ddau gontract gan Sureway Parking Services, a newidiodd ei enw yn ystod cyfnod y contract i Vinci Parking Services.

Yn dilyn adolygiad gan aelodau, pan oedd y contractau ar fin dod i ben, daethpwyd â'r contractau yn ôl yn fewnol gan yr awdurdod ym mis Ebrill 2007, gan drosglwyddo personél Vinci i'r awdurdod.

Roedd canolfan y gwasanaethau parcio yng nghanol tref Port Talbot i ddechrau, hyd at fis Awst 2013. Yma roedd cyfleuster siop lle gallai'r cyhoedd brynu hawlenni a thalu dirwyon parcio. Prynwyd meddalwedd newydd yn 2013 a oedd yn caniatáu preswylwyr i brynu neu adnewyddu hawlenni parcio ar-lein. Roedd hyn yn golygu nad oedd angen siop gwasanaethau parcio mwyach. Mae aelodau'r cyhoedd yn dal i allu cysylltu â'r gwasanaethau parcio gydag unrhyw ymholiadau drwy e-bost, dros y ffôn neu'n ysgrifenedig.

Mae'r Gwasanaethau Parcio'n gweithredu o'r Ceiau ym Mharc Ynni Baglan a chyflogir 18 aelod o staff yno. Mae'r adran gorfodi'n weithredol saith niwrnod yr wythnos. Ceir saith rownd yn y fwrdeistref, tair yng Nghastell-nedd, un ym Mhort Talbot, un yn Sgiwen, un ym Mhontardawe ac un patrol teithiol ar gyfer ardaloedd gwledig. Yn ogystal â hyn, cafwyd cerbyd CCTV teithiol ym mis Chwefror 2019 i gynorthwyo wrth orfodi ardaloedd mwy gwledig ac i ateb y galw am bresenoldeb y tu allan i ysgolion.

Gall y bobl hynny sydd wedi derbyn Hysbysiad o Dâl Cosb dalu drwy'r llinell talu dros y ffôn, ar-lein, drwy'r post neu'n bersonol yn unrhyw un o'n Canolfannau Dinesig. Rhaid cyflwyno pob apêl yn ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Parcio.

## 4 Meysydd Parcio

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gweithredu'r nifer mwyaf o feysydd parcio yn y fwrdeistref. Mae modd talu heb arian ar gael mewn 14 maes parcio drwy system darllen cardiau sydd wedi'i gosod yn y peiriannau talu ac arddangos.

Mae'r tabl isod yn dangos rhestr o feysydd parcio a weithredir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot, ynghyd â nifer y lleoedd sydd ar gael yno.

| Maes Parcio | Lleoliad | Nifer y Lleoedd Parcio |
|---|---|---|
| Maes Parcio'r Stryd Fawr | Castell-nedd | 37 |
| Maes Parcio Heol Milland | Castell-nedd | 450 |
| Maes Parcio Aml-Lawr Castell-Nedd | Castell-nedd | 600 |
| Maes Parcio Stryd Rosser | Castell-nedd | 33 |
| Maes Parcio Isaf Stryd Herbert | Pontardawe | 19 |
| Maes Parcio Uchaf Stryd Herbert | Pontardawe | 37 |
| Maes Parcio Ffordd Osgoi Pontardawe | Pontardawe | 44 |
| Bay View | Port Talbot | 68 |
| Maes Parcio Sgwâr Bethany | Port Talbot | 166 |
| Ffordd yr Harbwr - Parcffordd | Port Talbot | 111 |
| Ffordd y Cefnfor | Port Talbot | 282 |
| Canolfan Ddinesig Port Talbot | Port Talbot | 80 |
| Heol Victoria | Port Talbot | 18 |
| Maes Parcio Aml-lawr Port Talbot | Port Talbot | 705 |
| Maes Parcio Rhodfa Scarlet | Port Talbot | 111 |
| Maes Parcio'r Santes Fair | Port Talbot | 41 |
| Maes Parcio Heol yr Orsaf | Port Talbot | 107 |

## 5 Parcio Mwy Diogel

Un o fentrau Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu yw'r Cynllun Parcio Mwy Diogel a'i nod yw lleihau troseddu mewn cyfleusterau parcio.

Mae tair ar ddeg o'r meysydd parcio a reolir gan y Gwasanaethau Parcio wedi cyflawni statws Parcio Mwy Diogel. Dyfernir Park Mark® i feysydd parcio sydd wedi bodloni gofynion asesiad risg a gynhaliwyd gan yr heddlu.

I gwsmeriaid sy'n defnyddio maes parcio Park Mark®, mae'n lleihau ofn troseddu drwy ddangos bod mesurau ar waith i greu amgylchedd mwy diogel. Mae rhagor o wybodaeth a rhestr o feysydd parcio achrededig ar gael ar y wefan Parcio Mwy Diogel - http://www.saferparking.com.

## 6 Arloesedd a Thechnoleg



Yn ystod 2019/20 buddsoddom mewn 6 o beiriannau talu ac arddangos newydd gan fod llawer o'n hen gyfarpar yn dod i ddiwedd ei oes gweithio. Mae'r peiriannau newydd yn cynnwys cyfleuster taliad digyffwrdd sy’n fantais ychwanegol.

Mae hyn wedi bod yn boblogaidd â'r cyhoedd, o'i gymharu â'r hen ddull sglodyn a PIN. Lle mae'r peiriannau newydd hyn wedi'u gosod, mae mwy o gwsmeriaid yn talu trwy'r dull digyffwrdd na'r rhai sy'n talu ag arian parod.

Mae hyn yn fanteisiol i ni hefyd gan nad ydym yn treulio cymaint o amser bellach yn gwacáu'r peiriannau.

Bwriedir diweddaru mwy o'n peiriannau yn ystod 2019/20 os yw'n bosib.

## 7 Ystadegau

Yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, rhoddwyd 13,364 o Hysbysiadau o Dâl Cosb, 10,056 ar y stryd ac 3,308 oddi ar y stryd.

Mae'r tabl isod yn dangos rhaniad yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a roddwyd i bobl rhwng 01 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

| | |
|---|---|
| Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb Lefel Uwch a roddwyd | 9,217 |
| Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb Lefel Uwch a roddwyd | 4,147 |
| Cyfanswm yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a roddwyd | 13,364 |
| Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a dalwyd ar raddfa ostyngol | 8,524 |
| Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a dalwyd heb ostyngiad | 940 |
| Cyfanswm yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a dalwyd | 9,464 |
| Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb yr apeliwyd yn eu herbyn | 2,915 |
| Canran yr Hysbysiadau o Dâl Cosb yr apeliwyd yn eu herbyn | 22% |
| Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a ganslwyd o ganlyniad i apêl | 1,675 |
| Canran yr Apeliadau Llwyddiannus | 58% |
| Nifer yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a ddiddymwyd am resymau eraill | 827 |
| Nifer y cerbydau a ataliwyd | D/B |
| Nifer y cerbydau a symudwyd | D/B |

Diddymwyd cyfanswm o 2,502 neu 19% o'r holl Hysbysiadau o Dâl Cosb am amrywiaeth o resymau. Ystyrir pob cais yn ôl ei haeddiant ac ystyrir yr holl amgylchiadau lliniarol.

Ar yr adeg yr adroddir am hyn, mae'r 1,524 o Hysbysiadau o Dâl Cosb sydd ar ôl ar gamau adfer amrywiol. Felly gall y ffigurau amrywio.

Mae'r tabl isod yn dangos rhaniad yr Hysbysiadau o Dâl Cosb a chyfanswm yr oriau a dreuliwyd yn gorfodi fesul mis rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020.

| MIS | PCN A RODDWYD | ORIAU GWAITH GORFODI | PCN YR AWR |
|---|---|---|---|
| EBRILL | 1098 | 1100 | 0.99 |
| MAI | 1084 | 1100 | 0.99 |
| MEHEFIN | 1048 | 1100 | 0.95 |
| GORFFENNAF | 1184 | 1150 | 1.03 |
| AWST | 1071 | 1192 | 0.90 |
| MEDI | 1309 | 1200 | 1.09 |
| HYDREF | 1341 | 1200 | 1.12 |
| TACHWEDD | 1261 | 1200 | 1.05 |
| RHAGFYR | 980 | 955 | 1.04 |
| IONAWR | 1238 | 1192 | 1.04 |
| CHWEFROR | 1204 | 1192 | 1.01 |
| MAWRTH | 796 | 781 | 1.02 |
| CYFANSYMIAU | 13624 | 13362 | 1.02 |

## 8 Apeliadau a Heriau

Mae gan bob aelod o'r cyhoedd yr hawl i herio Hysbysiad o Dâl Cosb.

Gellir gwneud hyn yn anffurfiol drwy ysgrifennu at CBSCNPT o fewn # niwrnod i roi'r Hysbysiad o Dâl Cosb neu'n ffurfiol drwy gyflwyno sylwadau i CBSCNPT ar ôl i Hysbysiad i'r Perchennog gael ei gyflwyno i'r person neu gwmni a gofrestrir gyda'r DVLA fel perchennog y cerbyd.

Gellir apelio i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig sy'n wasanaeth dyfarnu annibynnol os nad yw peron yn hapus am benderfyniad a wnaed gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot ynghylch Hysbysiad o Dâl Cosb.

Gwnaed 63 o apeliadau i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig yn ystod 2019/20.

Caiff yr holl ffurflenni y mae eu hangen ar y cyhoedd er mwyn apelio i'r Tribiwnlys Cosbau Traffig eu hanfon gyda'r Hysbysiad o Wrthod y mae'r apelydd yn ei dderbyn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.trafficpenaltytribunal.gov.uk.

## 9 Canolfan Gorfodi Traffig

Pan fydd yr holl ymgeisiau i adennill taliadau sy'n ddyledus wedi methu, bydd Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn gwneud cais i'r Ganolfan Gorfodi Traffig am Warant i Reoli. Mae hyn yn ei alluogi i gasglu'r ddyled sydd heb ei dalu i'r awdurdod. Rhoddir y gwarantau hyn wedyn i gwmnïau gorfodi er mwyn iddyn nhw adennill y ddyled sy'n ddyledus, a hynny heb unrhyw gost i'r awdurdod.

Mae rhagor o wybodaeth am y Ganolfan Gorfodi Traffig ar gael yn:

https://courttribunalfinder.service.gov.uk/courts/traffic-enforcement-centre-tec

Mae'n edifar gan yr awdurdod y bu'n angenrheidiol iddo gymryd y fath gamau i gasglu taliadau sy'n ddyledus; fodd bynnag, gwneir hyn dim ond pan fydd pob ymgais arall i gasglu Hysbysiadau o Dâl Cosb sy'n ddyledus wedi methu. Yn ystod 2019/20, cyflwynwyd 1,053 o Warantau i Reoli.

## 10 Incwm a Gwariant

| | £ |
|---|---|
| Incwm o feysydd parcio | 1,169,619 |
| Gwariant Meysydd Parcio | 1,002,107 |
| Balans Meysydd Parcio | 167,482 |
| Incwm Gorfodi | 559,638 |
| Gwariant Gorfodi | 735,350 |
| Balans Gorfodi | 175,713 |
| Cyfanswm y Balans | 8,231 |

## 11 Hyfforddiant

Cynhelir sesiynau briffio rheolaidd gyda'r holl Swyddogion Gorfodi Sifil a Chynorthwywyr Parcio i sicrhau bod gorfodi a gweinyddu Gwasanaethau Parcio ledled y fwrdeistref yn deg, yn dryloyw ac yn gyson.

Ar y cyd ag Adran Hyfforddiant a Datblygiad yr awdurdod, rydym wedi datblygu perthynas waith dda ag Alpha Parking, Talk Training ac ACT Training Limited sydd wedi bod yn llwyddiannus iawn. Enillwyd neu dechreuwyd y cymwysterau canlynol yn 2019/20.

Dechreuodd un aelod o staff **Brentisiaeth Uwch Lefel 5 mewn Rheolaeth.** Mae hyn yn cynnwys dau gymhwyster:

- **Diploma NVQ Lefel 5 mewn Rheolaeth**
- **Diploma Lefel 5 ILM mewn Egwyddorion Arweinyddiaeth a Rheolaeth**

## 12 Cydnabyddiaethau

Ian Rees (Gwasanaethau Parcio)
Melanie Davies (Cyfrifon)

Cysylltwch â Steve Cook, Rheolwr Parcio drwy ffonio 01639 763968 neu e-bostio s.cook@npt.gov.uk os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr adroddiad hwn.